YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVIII. AWST, 1948. RHIF 8.

"Yn Nes, fy Nuw, i Ti."

NI ellir mesur dylanwad geiriau emyn Sarah Flower Adams ar feddwl a phrofiad crefyddwyr ledled y byd. Trwyddi yr adgyfnerthwyd ffydd a gobaith myrddiynau. Priodwyd y geiriau mor hapus â thôn Syr Arthur Sullivan, ac fe'i cenir bellach dros y byd. Dyma hoff emyn y brenin, Edward VII. Canwyd hi ar fwrdd y llong pan suddai'r Titanic dan y dyfroedd, a dywaid W. T. Stead—un a gollodd ei fywyd ar y fordaith dorcalonnus honno—amdani, "Annwyl yw'r emyn i werinwr yn ogystal a thywysog." Cyfeiria ef at y calondid a roddodd i'r Esgob Marvin, ar grwydr yn ddigartref yn Arkansas yn ystod y rhyfel gartrefol yn yr America, pan glywodd hen wraig weddw o'i chaban pren yn canu'r geiriau. Anghofiai ei thlodi wrth ganu. Oddiar hynny aeth heibio fwy na phedwar ugain mlynedd, ac yn nhreigl y blynyddoedd cynhyddodd yr emyn mewn dylanwad a swyn. Ni ysgrifennwyd geiriau mwy cywir, "Annwyl yw'r emyn i werinwr yn ogystal a thywysog."

Grym ei apel yw'r stori sy'n sylfaen iddi. Hen stori y bu'r cenedlaethau'n ei darllen am dair mil o flynyddoedd, ac am fil o flynyddoedd cyn hynny adroddid hi ar wefus cenhedlaeth wrth genhedlaeth. Ym mha fodd y daeth y stori ddihafal hon mor boblogaidd ? Y mae'r ateb yn syml. Un o ganolfannau'r grefydd Hebraeg oedd Bethel. Yno y tyrrai pobloedd rhanbarthau gogleddol Israel fel y tyrra'r Pabyddion i Rufain. Yr oedd y lle'n gysegredig yn eu golwg, yn gysegredig am fod yno faen santaidd, a dywedai offeiriad y lle mai ar y garreg hon y rhoes Jacob ei ben i gysgu'r noson honno y dihangodd oddi wrth Esau, ei frawd. Â'i ben ar y garreg hon y breuddwydiodd, ac y gwelodd yr ysgol sy'n cysylltu daear a nef.

Ar y ffordd i Haran, y lle y ciliai Jacob iddo, nid oedd deml na llannerch gysegredig. Yr oedd Jacob ei hun yn teimlo gwae dwys picellau cydwybod euog, wedi twyllo ei dad, wedi ysbeilio ei frawd, yn cilio i wlad ddieithr. Machludodd yr haul, ac yntau ar y

ffordd. Gorfu arno'r noson honno osod ei ben i orffwys ar garreg oer, ond yn ei gwsg gwelodd freuddwyd a gyffrodd ei deimladau dyfnaf. "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac ni wyddwn i. Ac ef a ofnodd, ac a ddywedodd, Mor ofnadwy yw y lle hwn. Nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd. A Jacob a gododd yn fore, ac a gymerth y garreg a osodasai dan ei ben, ac a'i gosododd hi yn golofn, ac a dywalltodd olew ar ei phen hi."

Meddyliwn am y stori fel stori. Meddyliwn am geinder a chynhildeb portread yr ysgrifennydd, yr agosatrwydd, y symlrwydd, a'r lliw. Llwybr unig, dyn, haul yn mynd i lawr, creigiau, ysgol —ychydig linellau, ond ohonynt fe weuir pictiwr sydd wedi byw drwy'r oesau.

Tair mil o flynyddoedd wedi gosod yr hen stori hon mewn llyfr, y mae Sarah Flower Adams yn ei darllen ac yn troi ei phrydferthwch tragwyddol, rhywbeth na berthyn i amser a lle, yn emyn ysbrydoledig.

"Though, like the wanderer,
  Daylight all gone,
Darkness be over me,
  My rest a stone :
Yet in my dreams I'd be
Nearer, my God, to thee,—
  Nearer to thee !

There let the way appear
  Steps unto heaven ;
All that thou send'st to me
  In mercy given ;
Angels to beckon me
Nearer, my God, to thee,—
  Nearer to thee !

Then with my waking thoughts
  Bright with thy praise,
Out of my stony griefs
  Bethel I'll raise :
So by my woes to be
Nearer, my God, to thee,—
  Nearer to thee."

Paham y cyfeirir yma at yr emyn ? Dim ond am fod digwyddiad wedi tynnu sylw at yr awdur. Can mlynedd yn gywir yn ôl y bu Hrw Sarah Flower Adams. Claddwyd hi ar Awst 21, 1848 ym faedd y teulu ym mynwent Foster Street, Harlow, Swydd Essex. mwyrach y bydd ychydig o hanes ei bywyd yn ddiddorol. Detholir

ef gan mwyaf o lyfr H. W. Stephenson, *Unitarian Hymn-writers*. Ysgrifennodd Mr. Stephenson hefyd draethawd rhagorol ar yr emyn. Cyhoeddir y ddau lyfr gan y Lindsey Press.

Ganed Sarah Flower Adams yn Harlow, Swydd Essex ar Chwefror 22, 1805, merch Benjamin Flower (1755—1829), argraffydd a chyhoeddwr, gynt o Gaergrawnt. Am ddeng mlynedd yng Nghaergrawnt bu'n golygu a chyhoeddi y *Cambridge Intelligencer*, papur nodedig o blaid rhyddid dinesig a chrefyddol. Fel pregethwr cynorthwyol llefarai'n bendant yn erbyn dogmatiaeth a gormes ysbrydol. Cyfaill iddo ydoedd Robert Aspland, golygydd y *Monthly Repository*, cylchgrawn yr Undodiaid yr arferai Flower ysgrifennu iddo'n fynych. Symudodd yn 1820, deng mlynedd wedi marw ei wraig, i Dalston, Llundain, a chartrefai yn awr yn ymyl y Parchedig W. J. Fox, gweinidog Capel South Place, Finsbury. Wedi marw y tad yn 1829 daeth ei ddwy ferch, Sarah Flower ac Eliza Flower, dan ofal W. J. Fox.

Daeth Eliza Flower, y ferch ieuengaf, i gyswllt agos a'r bardd Browning. Cwympodd y bardd mewn cariad ag Eliza, er ei bod naw mlynedd yn hŷn nag ef, a bernir mai hi a ymserchai gymaint mewn miwsig yw ysbrydiaeth *Pippa*. Y mae hanes carwriaeth Robert Browning ag Elizabeth Barrett yn hysbys. Priodasant yn 1846, ond tri mis wedi'r briodas bu farw Eliza Flower o'r darfodedigaeth.

Miwsig ydoedd diddordeb pennaf Eliza Flower, ond llenyddiaeth ydoedd diddordeb pennaf ei chwaer, Sarah Flower. Ysgrifennodd storïau, traethodau, a barddoniaeth i'r *Monthly Repository*, a oedd rhwng 1833 a 1836 yng ngofal W. J. Fox. Ei chyfranniad mwyaf nodedig yw'r traethawd, *An Evening with Charles Lamb*.

Yn 1834 priododd â William Bridges Adams, peiriannydd wrth ei alwedigaeth. Yn 1841 ysgrifennodd at gyfnither iddi ynghylch y llyfr emynau newydd yr oedd ei chwaer Eliza yn ei drefnu. Cymrai'r llyfr newydd le casgliad Aspland yng Nghapel South Place, ac i'r llyfr hwn y cyfrannodd Mrs. Adams dair ar ddeg o emynau gwreiddiol. Hi hefyd sy'n gyfrifol am yr aralleiriad o weithiau emynwyr eraill. Hi ysgrifennodd yr emynau—*He sendeth sun, he sendeth shower* ; *Part in peace* ! *Is day before us* ? a'r emyn *The world may change from old to new*, geiriau a welir yn y casgliadau mwyaf diweddar. Yng nghasgliad emynau Capel South Place y gwelodd *Nearer, my God, to thee* oleuni dydd gyntaf, ond yr oedd Mrs. Adams wedi marw cyn i'r emyn ddod allan o encilion casgliad Capel South Place i ennill ei lle yn emynyddiaeth y cenhedloedd.

GOLYGYDD.

Yng Nghwm Nedd Slawer Dydd.

Gan Miss K. Jones, Abertawe (Gellifaharen gynt).

GŴYR pawb sy'n caru Cymru am enwogrwydd Cwm Nedd fel cartrefle prydferthwch. Swynwyd myrddiynau gan arddunedd ei olygfeydd lliwiog a'i raeadrau gwyllt. Bu'n gartref a chynefin gwyddonydd a bardd a cherddor. Yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg bu'r bryniau cyfagos yn fagwrfa i ysbryd yr anghydffurfiaeth honno a ddangosodd ei grym yn nyddiau'r erlid o 1662 ymlaen.

Rhyw ddeng milltir o Gastell Nedd gwelir heddiw adfeilion hen gapel Blaengwrach. Codwyd y capel cyntaf yn 1704, ac fel llawer o addoldai'r ymneilltuwyr codwyd ef mewn man tawel anghysbell. Un o achosion yr hen Bresbyteriaid ydoedd, ac fel mewn llawer achos tebyg gwreiddiodd syniadau'r Undodiaid ynddo. Digwyddodd hyn yn ystod gweinidogaeth Thomas Morgan (1772—1810), dyn a fagwyd ar arffed tlodi, heb lawer o gyfleusterau, ond a ddoniwyd a gweledigaeth fawr. O enillion prin wrth y gwydd y pwrcasodd ei addysg, rhyw ychydig fisoedd o ysgol. Fel hyn y daeth i gyswllt a David Lloyd, gweinidog Llwynrhydowen, a fu'n gyfaill hael ac yn gefnogydd iddo yn ei astudiaethau. Yng nghwrs amser fel llawer un tebyg iddo daeth Thomas Morgan yn ysgolfeistr, ac yn ei oriau hamdden astudiodd lysieueg a gwyddor feddygol. Bu'r "meddyg gwlad" hwn yn gysur mawr i'r cystuddiol. Disgybl brwdfrydig i'r enwog Dr. Jenner ydoedd, a bu'n gyfrwng i achub llawer o fywydau pan ymwelodd y frech wen a'r gymdogaeth. Symudodd yn 1810 at gyfaill a pherthynas iddo, Morgan Williams, Alltycham, ger Pontardawe. Yno y bu farw ar Hydref 17, 1813, a chladdwyd ef wrth Gapel Gellionnen, lle y darllenir heddiw ar y mur ei goffadwriaeth yn gerfiedig ar ddarn o farmor rhagorol. Ymhlith ei olynwyr ym Mlaengwrach yr oedd y Parchedig W. Williams a fedyddiodd yn 1821 Thomas Stephens, beirniad llenyddol mwyaf craffus Cymru yn ei ddydd ac awdur *The Literature of the Kymry*. Yn 1836 daeth y Parchedig Owen Evans a hanoedd o Blwy Llandysul yn weinidog yno. Daeth yn ddiweddarach yn adnabyddus i gylch helaeth fel Owen Ifans, Cefn Coed y Cymer. Ychydig flynyddoedd cyn ei ddyfod y codwyd y capel. Dywedir mai gwedd ysgubor oedd ar yr hen adeilad a'i ffenestri bychain a'i lawr pridd. Ymneilltuodd y Parchedig Jenkin Williams o'r weinidogaeth yno yn 1880, ac oddiar hynny ni chynhaliwyd gwasanaethau cyson. [Cynhaliwyd gwasanaethau achlysurol yn y capel gan weinidogion yr ardal o fewn cof y trigolion canol oed heddiw.—*Gol.*].

Ni wreiddiodd hadau Undodiaeth yn ddwfn erioed ym mywyd crefyddol Castell Nedd. Rhyw gan mlynedd y bu eu hoedl, yna

gwywasant. Er na bu'r gynulleidfa Undodaidd erioed yn lluosog, perthynai iddi ddynion galluog a dylanwadol, yn eu plith gynrychiolwyr o deuluoedd ariannog yr ardal ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Addolai cangen o deulu'r Aubreys yno, a dywedir mai un o'r teulu hwn yn 1783 oedd y Cymro cyntaf i fod yn Ganghellor y Trysorlys. Etholwyd Mr. Richard Aubrey yn drysorydd i Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn y cyfarfod cyntaf yn 1802 yng Ngellionnen. Yn yr un flwyddyn y sefydlwyd y Parchedig David Davis yn weinidog, a'i dad, Dafis Castell Hywel, yn y cwrdd sefydlu gyda chwmni o gefnogwyr o Geredigion. Nid agorwyd y capel, er hynny, tan 1816, a gorfu ar y gweinidog ieuanc, oherwydd afiechyd, ymddeol o'r fugeiliaeth wyth mlynedd yn ddiweddarach. Dyn cartrefol yn y clasuron ydoedd, ac ysgrifennai'n gyson nodiadau Saesneg, Cymraeg, a Lladin i'r wasg. Golygodd weithiau ei dad. Bu hefyd yn weithgar gyda'r Gymdeithas i rwystro creulondeb tuag at anifeiliaid. Dilynwyd ef gan y Parchedig Russell Lant Carpenter, ac oherwydd na fedr had egino ar dir diffaeth gwerthwyd y capel tua 1854. Cynhaliwyd wedi hynny wasanaethau achlysurol yn yr hwyr mewn ystafell oer a grisiau culion yn fynedfa iddi. Dyna fan cyfarfod y "ffyddloniaid"—dau ohonynt oedd Mr. Rhys, llyfrgellydd dall y Neath Institute, a Mr. John Rowland, yr Undodwr gwresog hwnnw a oedd yn noddwr pob achos da ac a fu'n Brif Ynad y dref. Priododd David Davis â Catherine Rees, merch capten llong o'r dre, a bu farw yng Nghaerfyrddin yn 1846 yn 68 mlwydd oed. Hyd nes y llosgwyd yr adeilad yn 1903 bu'r darlun a baentiwyd ohono ychydig cyn ei farw gan arlunydd enwog yn addurno mur y Neath Institute. Agorodd David Davis ysgol lwyddiannus iawn ar y Parade, a'i gynorthwywr oedd Taliesin Williams, hynafiaethydd a bardd, ac yn ddiweddarach agorodd yr athro rhagorol hwn ei ysgol ei hun ym Merthyr, ysgol a gydnabyddid ymhlith y goreuon o ysgolion Cymru. Tad Taliesin Williams oedd Iolo Morganwg (1746—1826), ac yr oedd y mab wedi etifeddu doniau llenyddol y tad.

Gwir fod llawer wedi ceisio bwrw anfri ar yr hen fardd o Fro Morgannwg, ond y mae dyled mawr ar werin Cymru iddo am feithrin llawer mudiad a fu'n fendithiol iddi. Y mae cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o Undodiaid Cymru yn ddyledus iddo am eangder ysbryd a meddwl ei emynau. Ymhlith ei gyfeillion cyfrifai Iolo lawer o bobl enwog. Ef oedd y diwethaf i ffarwelio â Dr. Priestley pan ymadawodd y gŵr enwog hwnnw â'r wlad hon i fynd i'r America. Yr oedd Dr. Aikin, Dr. Lindsey, Mrs. Barbauld yn gyfeillion iddo. Bu yng nghwmni'r bardd Cowper a'r enwog Dr. Johnson. Gwelid ef yn fynych yn cerdded drwy Gwm Nedd, yn pwyso ar ei ffon hir, ac ysgrepan ar ei ysgwydd, ar ei ffordd i chwilio am ryw lawysgrifau gwerthfawr a drysorai ddiwylliant cenedl. Yr oedd yn gartrefol ym Mhlas Aberpergwm, yn darllen

hen femrwn ac yn cloddio ohono adnoddau hanes y teulu hynaf ei achau yn y wlad. Daeth yn gyfaill mynwesol i'r bardd Southey a ddaeth i'r dyffryn yn 1802 ac a ddenwyd gan brydferthwch y golygfeydd fel y bu iddo chwilio am gartref yng Nghwm Nedd. Ond wedi iddo fethu â dod o hyd i dŷ wrth ei fodd, aeth yn siomedig i'r "Lake District" i fyw yn ymyl ei gyfeillion, Wordsworth a Coleridge. Dywed awdurdodau eraill fod ei gydymdeimlad fel cydymdeimlad Iolo, Dafis Castell Hywel, a Tomos Glyn Cothi yn rhy fawr â'r helbulon yn Ffrainc. Yn ei henaint derbyniodd Iolo lawer o gymwynasau oddi wrth Isaac a William Redwood, plant un o arweinwyr y Crynwyr yng Nghastell Nedd. Onibai am eu caredigrwydd hwy byddai Iolo wedi gweld eisiau bara. Buont gydag eraill yn gyfrifol am y tanysgrifiadau blynyddol y derbyniai'r henfardd gyfran ohonynt bob wythnos. Cyfoeth mwnfeydd y dyffryn a dynnodd y Crynwyr yno, a daeth llawer ohonynt o Gernyw. Perchnogent lofeydd pwysig yng nghymdogaeth Abaty Nedd. Gweithredoedd da, galluoedd amlwg, cadernid cymeriad—dyna nodweddion y Crynwyr, neu'r Ffrindiau. Codwyd eu tŷ cwrdd yn 1799.

Agorodd Thomas Redwood ysgol yng Nghastell Nedd ar gyfer plant y Crynwyr yn yr ardal a'r sir. Teilwng croniclo'r ffaith i'w fam oedrannus a'i frawd, Charles, estyn croeso eu cartref i'r enwog Thomas Carlyle a fu'n aros gyda hwy am dair wythnos yn 1840. Dywedir fod ei hoffter o dynnu mwg wedi oeri tipyn ar y croeso. Ysgrifennodd Elijah Waring, y Crynwr a'r bardd, ei atgofion am Iolo Morganwg, a pherffeithiwyd ei ddoniau llenyddol gan ei ferch Anna Letitia Waring (ganed 1823) yn ei chyfrol, *Hymns and Meditations*.

Llafuriodd y Crynwyr yn egniol o blaid Heddwch. Hwy a sefydlodd yn 1816 y Peace Society. Ysgrifennydd cyntaf y gymdeithas hon oedd Evan Rees, brodor o'r ardal a phleidiwr diofn dros ryddid dinesig a chrefyddol. Ei llywydd cyntaf oedd Joseph Tregelles Price, perchennog gwaith haearn Abaty Nedd, dyn na laesodd ei benderfyniad na chai ei weithwyr byth gynhyrchu adnoddau rhyfel. O'i waith ef nid aeth allan erioed ddefnydd yr un magnel. Gwrthwynebai yn bendant hawl y wladwriaeth i grogi dynion, a phan gondemniwyd Dic Penderyn i farw oherwydd iddo gymryd rhan flaenllaw yn nherfysgoedd Merthyr aeth Joseph Tregelles Price ar ei union i Lundain i ymbil am ei fywyd. Ond ofer bu ei gais. Ym mhen rhyw ddeugain mlynedd cyffesodd dyn arall i'r trosedd y crogwyd Dic Penderyn amdano. Gallai Mrs. Tregelles Price ymfalchïo yn ei mab. Dynes fedrus ydoedd, a chymrai ran flaenllaw yng nghyfarfodydd y Crynwyr. Ni chollai gyfle i gyhoeddi egwyddorion y mudiad hwnnw, ac yr oedd gwraged y Crynwyr yn amlwg ym mywyd y dref, lle y gwelid hwy ar ddyddiau marchnad a ffair yn eu gwisgoedd sidan llwydolau, eu

siolau bach tri chornel, a'u ponedau sidan a'u dolennau gwynion dan yr ên. Yng nghwrs amser lleihaodd nifer y Crynwyr, a thua diwedd y ganrif ddiwethaf caewyd drws y Tŷ Cwrdd.

Yn ei ienctid treuliodd y gwyddonydd byd-enwog, Dr. Russell Wallace (1823—1913), lawer o amser yng Nghwm Nedd. Yn ystod y pedwar degau o'r ganrif bu ef a'i frawd hynach, William, yn aros ym Mryn Coch, tŷ fferm cysurus. Mesur daear a gwneud mapiau o'r ardal, mesur dyfnderoedd yr afon ac arolygu cwrs y Vale of Neath Railway oedd eu gwaith. Yr oedd Russell Wallace yn fyfyriwr cyson, a phenderfynodd helaethu ei wybodaeth mewn gwyddoniaeth, maes yr oedd ganddo ddiddordeb mawr ynddo. Pan dyfodd i rannu ei syniadau â Darwin ar egwyddor Datblygiad collodd gyfeillgarwch llawer un a fu'n gwylied ei gamre mewn boddhad.

Ni cheir llawer o gartrefi yn Sir Forgannwg y mae iddynt hanes mwy diddorol nag eiddo Plas Aberpergwm, wrth droed y mynydd ar dir llyfn yn rhan ogleddol y cwm. Llefara'r muriau llydain am hen hanes, ac nid yw Amser yn mennu arnynt. Yn eangder ei barc y mae gorffwysfannau pererinion sy'n olygus i'r llygad ac yn groesawus i'r lluddedig. Dywedir y bu gwinwydden hardd nodedig am ei grawnwin, yn tyfu yn un o'r encilion cysgodol hyn. O gylch y llwybr a arweiniai at y tŷ tyfai coed anghyffredin, gan guddio'r tŷ'n gyfangwbl o olwg y byd.

Bu farw Rhys Williams, Aberpergwm, yn 1812, a disgynnodd yr ystâd i feddiant ei fab hynaf, William, a fu'n gyfrwng i helaethu'r hen blasty a'i brydferthu. Dyn call, rhyddfrydig ei feddyliau ydoedd. Cododd gapeli ; cefnogodd addysg trwy waddoli ysgolion a dilladu'r tlodion. Carai lenyddiaeth ac iaith ei genedl, ac ni chafodd ei bedwar mab siarad gair o Saesneg hyd nes iddynt gyrraedd ei seithfed mlwydd oed.

Wedi blynyddoedd hir o deithio ac anturiaethau lawer ar y Cyfandir, daeth William Williams yn ôl i Aberpergwm yn 1832, ac fel etifedd yr ystâd derbyniwyd ef gyda llawenydd mawr. Tywynai golau o bob ffenestr yn ei hen gartref ; trwy'r drws agored treiglai seiniau chwerthin a chân. Ar bob man amlwg yn y gymdogaeth fflamiai'r coelgerthi eu tystiolaeth i boblogrwydd y gŵr bonheddig ifanc. Ogylch porth y plasty tyrrai cyfeillion a thenantiaid, ac ar awyr y nos cludid swn cyfarth y cŵn hela a charlam y ceffylau. Yr etifedd yn dod gartref ! Nid rhyfedd iddo brofi pangfeydd hiraeth ar ei grwydriadau. Y rheini sy'n cyfrif am y llinellau hyn sy'n dangos mor eglur awyrgylch Gymreigaidd ei gartref.

O na bawn i yng Nghwm Nedd
Yn bwyta medd a bara,
Cael swn y delyn wrth y tân,
A Shan fy ngwaer [chwaer] yn wara.

Yr oedd teulu Aberpergwm i gyd yn gantorion, a'r ieuengaf ohonynt oedd Jane Williams, merch luniaidd a addysgwyd yn Lloegr. Yr oedd ganddi lais melys ac yn fedrus ar ganu'r delyn, yn ein hadgofio am y geiriau "iaith enaid ar ei thannau." Ei henw yng Ngorsedd y Beirdd oedd Llinos, anrhydedd a dderbyniodd yn Eisteddfod Abergafenni yn 1832 pan enillodd wobr Llanofer am gasgliad o alawon Cymru. Treuliodd oriau hapus gyda'r werin bobl yn gwrando ar eu caneuon. Gwnaeth wasanaeth i Gymru drwy hyn, a chyhoeddwyd y casgliad yn 1844. Y frenhines Victoria biau'r cyflwyniad.

Aelod amlwg ar yr aelwyd oedd Dafydd Niclas, bardd teulu Aberpergwm am hanner canrif, yr olaf o'i dras yng Nghymru, wrth bob tebyg. Ysgolfeistr, dyn diwylliedig, ffysigwr, a bardd, brodor o Langynwyd (plwy'r Ferch o Gefn Ydfa) ydoedd. Fel cyfansoddwr baledau yr erys enw Dafydd Niclas, a meddai ar lais tenor cyfoethog a medr ar y tannau. Ef ydoedd cyfansoddwr "Y Deryn Pur," un o alawon serch melysaf yr iaith. Ymhlith alawon enwog eraill priodolir iddo "Ffani Blodau Ffair." Merch landeg ydoedd Ffani, un o drigolion y dyffryn, y dyffryn mwyaf nodedig am ei alawon gwerin yng Nghymru. Treuliodd Miss Williams a'i hunig chwaer eu blynyddoedd olaf yn The Cottage, Ynyslas, cartref prydferth a roddwyd iddynt gan Arglwydd Adare, ac yno yr ymgasglai cerddorion y gymdogaeth, gydag eraill o dalentau mawrion, fel John Thomas "Pencerdd Gwalia," telynor y Frenhines. Bu'r crythor byd-enwog, Paganini, yn aros yno. Gadawodd osgo urddasol a ffashynau hynafol y chwiorydd argraff ddofn ar yr ymwelwyr. Cyn cinio gwisgent y wisg draddodiadol, a disgwylient i bobun drwy'r tŷ wneud yr un fath. Yn ddiweddarach yn y dydd gwisgent fenyg er mwyn croesawu eu cyfeillion, eu tlysau o'u clustiau'n gorffwys ar eu hysgwyddau, a'u gwallt yn disgyn yn fodrwyau arian dan gapiau o addurnwe drudfawr. Treulient amserau penodol o'r flwyddyn yn Bath, ac yr oeddynt yn gyfeillion mynwesol i Arglwyddes Llanofer a'i gŵr, Syr Benjamin Hall. Cyfranogent o ddiddordebau cyffredin, cariad at Gymru, ei cherddoriaeth, ei hiaith, ei llen gwerin. Bu'r chwiorydd byw heibio i oedran yr addewid—Miss Williams hyd 1871 a Llinos i'r oedran aeddfed o bedwar ugain mlynedd.

Bu llaw Amser yn ddiwyd yn gwneud cyfnewidiadau yn yr hen ddyffryn gwledig. Heddiw, adfeilion yw capel Blaengwrach. Adfeilion hefyd yw gwaith haearn Abaty Nedd, coffadwriaeth anheilwng i'r dyn dewr hwnnw a fu'n ymbil ar Arglwydd Melbourne am achub bywyd Dic Penderyn. Llithrodd hynodion Iolo dan gysgodion anghofrwydd. Ni chofir mwyach am syndod Southey a fu'n dotio ar olygfeydd naturiol y gymdogaeth. Ond clywir eto'n cyniwair drwy'r cwm acennion serch "Y Deryn Pur" a'r alaw werin honno a achubwyd i gôf Cymru ar aelwyd Aberpergwm, "Y Gwenith Gwyn."

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

(*Parhad*).

Cyn myned ymlaen â'r hanes rhaid dweud ychydig eiriau yn yr ysgrif hon eto am rai personau a fu (ac y sydd, un ohonynt, o hyd) yn weithgar ac yn ffyddlon iawn gyda'r achos yn ystod y blynyddoedd 1922—1926.

Yn gyntaf ac yn bennaf carwn ddweud am Mr. Arthur T. Grindley a ddaeth yma o Bootle ger Lerpwl yn gynnar yn y flwyddyn 1922. O'r holl rai sydd wedi bod o'r cychwyn hyd yn awr yn ffyddlon ac yn weithgar yn yr Achos bach, Mr. Grindley efallai yw'r mwyaf ohonynt. Nid oes ond dwy swydd ynglyn â'r gynulleidfa, mi gredaf, nad yw wedi eu dal ac wedi eu cyflawni gydag arddeliad. Ar hyn o bryd ef yw is-gadeirydd y gynulleidfa a bu'n gadeirydd, yn organydd, yn archwiliwr y cyfrifon, ac yn answyddogol ef sydd yn agor drws y Capel Bach bob Sul bron ac yn ei gloi fynychaf; ef sydd yn rhoi'r llyfrau emynau allan bron bob Sul ac yn aml yn dewis y tonau sydd i'w canu hyd yn oed pan na fyddo yn canu'r offeryn ei hunan; ef hefyd sydd yn newid enw'r pregethwr am y Sul dilynol ar y bwrdd hysbysebu sydd yn y ffenestr ac yn newid y *Wayside Pulpit* bob Sul, a gwna hyn o hyd er na chyhoeddir pulpud y fforddolion yn awr, canys fe â dros yr hen rai drosodd a throsodd. Yn wir, nid oes nemor o ddim ynglyn â'r Capel Bach heblaw pregethu na wna, a phan ddywedaf nad Undodwr y bu erioed, mai yn Weslead y cafodd ei ddwyn i fyny ac a fu am y rhan fwyaf o'i oes hyd yma, y mae ei ffyddlondeb efallai yn fwy byth i'w ryfeddu. Ond dyna'r fath ddyn yw Mr. Grindley—beth bynnag yr ymafla ei law ynddo fe'i gwna â'i holl egni. Oddiar pan ddaeth gyntaf i Aberystwyth yn 1922 hyd yn awr ni chollodd un gwasanaeth yn y capel ond o achos afiechyd neu absenoldeb o gartref.

Brodor o sir Amwythig yw A. T. Grindley—cafodd ei eni rhyw ddau can llath tuhwnt i glawdd Offa. Ni wn ddim am ei ddyddiau bore, ond wedi tyfu ohono yn ddyn aeth i wasanaeth y Llywodraeth neu'r *Civil Service*, fel y'i gewlir yn gyffredin, ac yng ngwasanaeth y Llywodraeth y bu hyd o fewn i ryw ddeuddeg mlynedd yn ôl. Er yn was i'r Llywodraeth cymrodd ran flaenllaw ym mywyd cyhoeddus y trefi y bu yn byw ynddynt ac yn enwedig felly yn Plymouth, lle, os na chamsyniaf yn ddirfawr, y bu yn aelod o Gyngor y Dref. Fel y dywedais uchod, o Bootle y daeth yma, ac yno, 'rwy'n meddwl, y daeth o dan ddylanwad y ffydd Undodaidd gyntaf ym mherson y Parch. J. Morley Mills ac wedi hynny y Parch. Fisher Short, i'r rhai y mae ganddo barch mawr.

Ymhlith y myfyrwyr Undodaidd a fu yn y Coleg rhoddaf le uchel i Miss Gwyneth J. M. Lewis, merch Mr. Sam Lewis a nith Mr. John Lewis, ill dau o Bont-y-pridd ac yn flaenllaw gyda'r mudiad Undodaidd yno. Nid wyf yn cofio yn iawn pa flwyddyn y daeth yma, ond rhaid ei bod tua 1922, canys hi oedd yn y gadair yng nghyfarfod blynyddol y gynulleidfa ym mis Mai 1925, a dengys hynny i mi ei bod yn debyg o fod yn ei thrydedd blwyddyn yn y Coleg y pryd hwnnw. Bu yn ffyddlon iawn i'w chydgynulliad, a chymrai ran flaenllaw yng ngweithrediadau'r gynulleidfa. Yn y Coleg credaf mai ei bwriad oedd bod yn athrawes ysgol a thebyg mai dyna fu am rai blynyddoedd, ond fel y rhan fwyaf o ferched y mae yn awr yn wraig briod—yn briod â ffermwr o ardal Nelson, fel y deallaf, a deil Mrs. Edward Thomas, B.Sc. o hyd yn flaenllaw gyda'r mudiad Undodaidd ym Morgannwg.

Un arall y carwn ddweud gair yn fawr amdano yw Daniel Ceiriog Jenkins o eglwys Rhydygwin. Mab yw Ceiriog Jenkins i'r diweddar Mr. a Mrs. Jenkins, Glanwern, Dyffryn Aeron, a daeth i'r Coleg ger y Lli tua 1923 neu 1924. Bu yntau hefyd yn ffyddlon iawn i'w gyd-gynulliad, a dewiswyd ef i gymryd y gadair yng nghwrdd blynyddol y gynulleidfa ym mis Mai 1926. Gwyddoniaeth oedd pwnc ei astudiaeth ac wedi gadael y Coleg cafodd le pwysig gyda rhyw gwmni mawr yn neu yn agos i Birmingham ; a chredaf i mi glywed yn ddiweddar iddo gael lle o gwell fyth. Dymunaf iddo bob llwyddiant eto yn y dyfodol.

Cofio Dau Gor.

Gair oddi wrth Mrs. A. J. Rees, Llanbedr at y plant yn bennaf.

Wel, blant bach, clywais i chwi wneud eich gwaith yn dda yn y Gymanfa Ganu, yn adroddwyr a chantorion. Tybed a fethodd rhai ohonoch fel fi a bod yno oherwydd afiechyd ? Dyna i chwi beth diflas yw bod yn wael ar ddydd y Gymanfa Ganu pan fydd pobl eraill yn eu mwynhau eu hunain yn y gân. Ond nid lle da yw cymanfa i un sydd ag annwyd trwm yn y pen, a rhyw guro parhaus ar y top fel pe bae gof yn curo arno â morthwyl, a rhyw sŵn yn y clustiau fel pe bae tractor ugain tunnell yn rhuthro o un glust i'r llall, a sŵn rywle o'r gwddf i'r frest fel pe bae rhyw ddwsin o gathau bach yn gwichian yno. Yn siwr i chwi, buasai'r canu yn swnio'n lled aflafar, y sopranos, yr altos, tenor a'r basers allan o diwn yn yfflon.

Tueddol ydym ni, yr hen *fogeys*, i achwyn nad ydych chwi, y plant, yn cymryd digon o ddiddordeb mewn cerddoriaeth. Cofiwch chwi, bydd hynny'n golled fawr i chwi ac i Gymru, Gwlad y Gân.

Tybed ai arnoch chwi y mae'r bai i gyd? Gwn fod yn rhaid i blentyn gael athraw ac hyfforddiant.

Pan oeddwn i'n blentyn, yr oedd gan bob capel ac eglwys eu côr plant, hyd yn oed yn y mannau mwyaf anghysbell o'r wlad, ac er fod gan lawer ohonom bellter maith i'w droedio, ni chymerem lawer am golli un ysgol gân, bydded wynt, bydded law.

Cofiaf, neu yn fwy cywir efallai, brithgofiaf am Eisteddfod unwaith yn ysgoldy Felinfach ger Ystrad, pryd y cynigid gwobr i'r côr plant gorau. Aeth côr plant Capel y Cribyn ati ar unwaith i ddysgu darn arbennig ar gyfer y gystadleuaeth, gan fod y corau yn cael dewis eu darnau. Buom wrthi'n ddiwyd yn ymarfer, ac yn meddwl ein bod yn canu'n dda, wrth gwrs, yn ôl arfer plant. Yn ei dro, gwawriodd dydd pwysig yr Eisteddfod, ac er ein gofid, yr oedd yn bwrw eira. Nid rhyfedd hynny, oherwydd yn nyddiau'r Nadolig ydoedd, ond nid oedd eira na chenllysg yn mynd i'n rhwystro ni i ganu.

Cofiwch chwi blant nad oedd bws na modur mewn bod y pryd hynny, yn y wlad beth bynnag, a rhaid gwneud y tro ar drap a cheffyl neu gambo a cheffyl, fel y byddai'r galw. Cefais fy hun mewn trap gweddol uchel a cheffyl cryf yn ei dynnu. Ni chofiaf pwy oedd fy nghwmni yn y cerbyd, ond cofiaf yn dda mai trafferthus iawn oedd y daith, gan fod trwch mawr o eira ar y ddaear erbyn hyn, ac nid anghofiaf byth mo'r pryder wrth fynd ar y goriwaered heibio'r Bedlwyn at Bont Tŷ Cam. Prin y medrai'r ceffyl druan a chadw ei draed odditano gan fod y ffordd mor serth, a'r eira'n casglu am ei draed o hyd, a minnau'n crynu fel yr aethnen gan ofn ei weld yn cwympo a'm taflu innau'n ddiseremoni i'r eira. Er clod i'r hen geffyl ffyddlon a'r gyrrwr gofalus, cyraeddasom Felinfach yn ddiogel, ond yn lled oer. Yn ei thro daeth cystadleuaeth y corau plant; cawsom ar ddeall mai dim ond dau gôr oedd yno, sef Cribin a Rhydygwin. Canodd Rhydygwin yn gyntaf, a'i darn hwy oedd "Rhowch, medd yr afon fach," a'r diweddar Hughes Rhydyfydr yn arwain. Yna daeth ein tro ninnau, a'n darn ni oedd "Gosteg Fôr," a Dafydd fy mrawd hynaf yn arwain. Yna daeth y feirniadaeth, ac ni chafodd plant Cribin fwy o siom erioed na phan ddywedodd y beirniad mai Rhydygwin oedd y gorau. Ni choeliai yr un ohonom iddynt ganu'n well na ni. Ni chofiaf pwy oedd y beirniad, ond ein barn ni oedd nad oedd yn deall dim. Yr oedd tipyn o wahaniaeth yn ansawdd y ddau ddarn, ysgafn a hwylus oedd un, caled ac anodd oedd y llall, yn enwedig i blant ieuainc. Tebyg nad oedd digon o rym yng nghôr y Cribin i wneud cyfiawnder â darn mor galed a dramatig. Dyna beth fflat ydyw ymlusgo ymhell trwy'r eira a chael dim cymaint â diolch am hynny. Ni chofiaf ddim am y daith adref; efallai fy mod yn cysgu, neu fod y siom o golli'r wobr wedi marweiddio fy nghyneddfau yn llwyr.

Erbyn heddiw, credaf mai gorau po ieuengaf y dechreuwn ymladd brwydrau bywyd yn y byd ; gwelwn yn lled fuan mai ennill a cholli, neu llwyddiant ac aflwyddiant yw hanes ymdrechion y rhan fwyaf ohonom. Dywedir nad yw llwyddiant parhaus yn dda i neb, gan ei fod yn tueddu i wneud dyn yn ymffrostgar a hunanol, a bod ambell ysgydwad yn achlysurol yn help i gadw dyn yn ei le.

Yn awr, blant, gobeithio na fydd angen eich cymell i ddysgu'r Solffa yn y Gymanfa Ganu nesaf, ond y bydd pob un ohonoch yn gwneud ymdrech i ddysgu, pe na bae ond er mwyn diogelu caniadaeth y cysegr.

Miwsig.

Gwas a meistr ydwyf ; gwas y meirw a meistr y byw. Trwof fi y dywaid yr ysbrydoedd anfarwol y neges sy'n gwneud i'r byd wylo a chwerthin a rhyfeddu ac addoli.

Adroddaf stori cariad, stori casineb ; y stori sy'n achub, y stori sy'n damnio. Myfi yw'r arogldarth sy'n cludo gweddiau i'r nefoedd. Myfi yw'r mwg sy'n fantell ar faes y frwydr lle y mae dynion yn gorwedd i farw a minnau ar eu gwefusau.

Yr wyf yn ymyl allor y briodas, ac wrth y beddau pan agorant. Galwaf y crwydryn adref ; gwaredaf yr enaid o'r dyfnderoedd ; agoraf enau cariadon, a thrwof fi y sibrwd y meirw wrth y byw.

Gwasanaethaf un fel y gwasanaethaf bawb, a'r brenin a wnaf yn slaf imi cyn hawsed ag y darostyngaf ei slaf ef. Siaradaf drwy adar yr awyr, pryfed y maes, rhuthr y dyfroedd ar asennau creigiog y traethau, uchenaid y gwynt yn y coed ; a chlywir fi hyd yn oed gan yr enaid a'm hedwyn yn nwndwr yr olwynion ar ystrydoedd y ddinas.

Nid adnabum frawd, er fod pob dyn yn frawd imi ; yr wyf yn dad i'r gorau sydd ynddynt, ac yr ydynt hwythau yn dadau i'r gorau sydd ynof fi. Yr wyf ohonynt, ac y maent hwythau ohonof fi.

Canys offeryn Duw ydwyf.

Anadnabyddus.

Swn.

Gellir rhannu pob dyn yn dair elfen,—yr hyn a feddwl amdano ef ei hun, yr hyn a feddwl eraill amdano, ac yna yr hyn ydyw yn iawn. Yn fwy syml, gellir eu croniclo fel hyn, ymffrost, clonc a'r gwir, ac o'r tri hyn y pwysicaf o lawer yw clonc, neu yn ôl yr enw meddalach—barn y cyhoedd. Dyma'r elfen sy'n cyfrannu fwyaf tuag at ffurfiant cymeriad dyn. Profwyd eilwaith

eildro fod yna nerth dibendraw yn hwn. Pe dywedai rhywun wrthyf nad edrychwn yn dda, ni chymerwn fawr sylw y tro cyntaf. Yr eilwaith, tebyg y teimlwn rhyw wendid yn dod trosof, a phe bai i drydydd fy nghyfarch felly ni wn cyhyd y buaswn cyn bod mewn gwely. Enghraifft gellweirus yw honna, ond odid, ond dengys mor rhwydd y gellir argraffu ar ein meddyliau. Yn wir edwyn dyn ef ei hun yn ôl yr hyn a ddywaid eraill amdano. Felly y mae perygl i gamgymryd calondid am ganmoliaeth, ac yn lle nerthu yr un a galonogir, fe'i gwanheir a cheir y peth a elwir yn gyffredin, —'tipyn o wynt.' Ymhellach byddaf yn ddrwgdybus iawn o ganmoliaeth bob amser. Mae yna un person yn ein ardal ni sydd yn rhwydd ei galondid a'i ganmol, ond y drwg yw, bob tro y gwnâ hynny gallaf eich sicrhau y bydd ganddo ryw ffafr i'w cheisio yn y dyfodol agos.

Gan fod yr elfen gymdeithasgar mor gryf mewn dyn y mae'r ddwy elfen gyntaf yn cael lle blaenllaw iawn. Piti na chawsai'r trydydd roi ei phen i mewn ar dro.

* * *

Siarad a chleber! Yr wyf wedi alaru arnynt. Ni wn a oes gennyf gyfeillion mewn hyn o beth. Dywedodd Hazlitt, y traethodwr, na charai ef gwmni wrth deithio'r wlad. Rhaid fyddai siarad â hwnnw a sôn a synnu am brydferthwch hyn a'r llall. Dyna, meddai ef yw gwneud pleser yn waith. Amdanaf fy hun ni allaf fynegi fy ymdeimlad o dlysni blodyn wrth rywun arall. Nid yw'r tlysni yn cynhesu yr un teimladau ym mhawb. Rhywbeth i'r llygad yw prydferthwch, ac o'r llygad i'r galon; felly na theflir ef allan dros y dafod! Ni fynnwn i neb ehangu ar neges bwrlwm y ffynnon, sibrwd dail yr hydref, a gwên y lili wen fach. Mewn distawrwydd y mae dyn yn meddwl. Dyma gosb y gell unig—y meddyliau ac nid y distawrwydd.

* * *

Nid anystyriaeth yw distawrwydd. Gellir rhoi calondid i bawb a'u haedda drwy ymddwyn tuag atynt mewn bywyd sydd yn ddiolch ynddo ef ei hun. Os gwelir daioni neu ymgais at ddaioni mewn dyn, na chamoler ef â siarad gwag. Dim ond a ddisgwylir oddi wrth ddyn ydyw, y dyn sydd yn uwch nag anifail. Eithr dilynwn yr esiampl a osodir. Trwy hyn ymgeisiwn at fywyd gwastad heb ynddo na chymoedd barn na mynyddoedd canmoliaeth. Mewn distawrwydd mae Duw yn ein caru ac mewn distawrwydd y cewn ninnau gymundeb ag ef.

"Yn nhrymder yn nyfnder y nos—mewn hedd
A mud unigedd mae Duw'n agos."

D.J.D.

Gogoniant Gardd.

Gan y Parchedig J. Tyssul Davis, B.A., Bryste.

"Athyred, ddehau-wynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwasgarer ei pheraroglau." Atebodd un awdur sy'n caru Natur yr alwad, "Yn ôl i'r tir." Gweler llyfr J. S. Collis, *Down to Earth.* Ysgrifenna iddo gael gwaith wrth fodd ei galon, y gwaith o glirio gallt o goed yn swydd Dorset.

Yno am ddeunaw mlynedd cafodd Natur ei ffordd ei hun, ac yr oedd y tyfiant mor dew fel na allai dyn symud yn ei flaen un cam yn ddirwystr. Coed pryfet, a mieri, a rhaffau crog y gwyddfid, a'i dasc yntau oedd rhyddhau'r lle o'r drysni hwn fel y gallai'r coed ynn a dyfai yno gael cyfle i anadlu. Pedwar erw ar ddeg i'w clirio a'u teneuo. Drain, a phlanhigion sy'n byw ar blanhigion eraill, anialwch mieri, prysgwydd, coed ceimion, di-lun! Di-wreiddiwyd hwy, ac o'r diwedd safai pob pren yn yr allt yn ei reng—rhengoedd o gadernid a phrydferthwch.

Gwyddom am ddefnyddioldeb y pren onnen yng ngwneuthuriad offer fferm. Dyma hefyd bren yr offer chwarau, fel batiau criced a ffyn.

Un peth arall a welodd y gweithiwr hwn oedd y cyfoeth o flodau'r gwanwyn a ddaeth i orchuddio llawr yr allt, fioled, llysiau'r gwynt, coesau brain. O'i chymharu â gallt o goed pîn y mae'r gwahaniaeth yn eglur. Yng nghysgodion tywyll y pîn nid oes ddim yn tyfu, ac ni ddaw'r adar yno i ganu.

Awgrymir yma debygrwydd rhyfedd i fywyd dyn. Oni welodd Shakespeare hynny? Ym meddwl Hamlet, yn ei awr chwerwaf, gesyd y darlun o fywyd fel gardd yn llawn chwyn wedi hodi, a phlanhigion gwyllt, gwenwynig yn ei meddiannu'n llwyr.

Ac eto, yn llyfr Bernard Shaw, y mae Voltaire yn dweud wrth y Ferch Ddu mai'r lle gorau i chwilio am Dduw ydyw gardd. "Gwnewch i chwi eich hunan ardd fechan, palwch a phlennwch hi, chwynnwch a thociwch y planhigion, a byddwch fodlon os bydd Duw'n procio eich braich pan fyddwch yn garddio'n anghelfydd, ac yn eich canmol pan fyddwch yn garddio'n dda."

Dyna feddwl Emerson, "er fod y byd llydan yn llawn o ddaioni, ni ddaw bywyn o yd maethlon i ddyn ond trwy ei lafurwaith ar y dernyn daear a roddwyd iddo i'w drin."

Nid er mwyn ei gweld ond er mwyn ei defnyddio y plennir gardd yr enaid, ac yno y dylai pob llysiau iechydol dyfu yn ogystal â'r blodau sy'n distyll eu perarogl ar y llwybrau.

Ond y mae'r ardd yn llawn o chwyn, a drysni'r arferion esgeulus—dail tafol yn lle blodau'r gwynt a llewyg yr iar yn lle rhosynnau.

Hunan-lywodraeth—tasc parhaus ydyw, ac y mae'n rhwym arnom ymosod ar y gwendid hwn a'r gwendid arall, y pechod

annwyl hwn a'r pechod annwyl arall. Rhaid coethi a phuro'r cyfryngau y mae r ysbryd yn llefaru trwyddynt, a thrwy hynny ein gwneud ein hunain yn fwy parod ar gyfer y bywyd lletach, doethach, tangnefeddus, a llawnach sy'n ein haros tu hwnt i'r llen ac mewn bydoedd eraill.

"Gogoniant yr ardd, y mae'n ein gogoneddu ni."

Marwgofion.

MAI 24, ym mynwent Pantycrwys, Craig Cefn Parc, y daearwyd gweddillion Mr. JOHN DAVIES, Heol Newydd, Trebanos. Bu'n gystuddiol am y rhan fwyaf o ddwy flynedd, a bu farw ar Fai 20 yn 72 mlwydd oed. Ei rieni oedd Mr. a Mrs. Samuel Davies, Penbanc, a thrwy gydol ei oes wrth yr enw John Davies, Penbanc yr adwaenid yntau. Dyn tawel iawn, yn dewis y lle anamlwg oedd Mr. Davies, ond ymhlith ei gydnabod nid dyn-di-ddweud mohono. Gŵyr y sawl a gafodd y fraint o rannu cyfrinach ag ef ei fod yn meddu ar bersonoliaeth hardd iawn. Dyn pwyllog ei farn, cywir i'w air, dyn hael ei gymorth, cydwybodol yn ei waith ydoedd. O fewn ei gyfleusterau yr oedd yn ddyn diwylliedig, ac nid oedd hiwmor llawer sefyllfa yng nghudd oddiwrtho. Ei bleser oedd gwaith ; ni allai ef oddef segurdod. Glôwr dan y ddaear ond meiswn ar yr wyneb ydoedd. Ers blynyddoedd bellach bu'n cydweithio â'i frawd yng nghyfraith, Mr. H. H. Morgan, Adeiladydd, Trebanos. Yn y gwasanaethau yng Nghapel y Graig gwelir ei le'n wag—y blynyddoedd diwethaf ni allai gyrraedd fel arfer y gwasanaeth yng Nghapel Gellionnen, ond bydd yn aros ar y ddau adeilad lawer iawn o waith ei ddwylo, gwaith cariad na welwyd son amdano yn adroddiadau'r gynulleidfa. Yr oedd wedi ymddeol cyn y Rhyfel, ond aeth yn ôl i'r lofa pan oedd galw mawr am lowyr. Ni weithiodd yn hir ; yr oedd caledwaith y blynyddoedd wedi gadael craith arno. Collodd ei briod chwe mlynedd yn ôl, a chladdwyd hi ym medd ei theulu ym mynwent Pantycrwys. Yno hefyd y claddwyd Mr. John Davies yng ngwydd tyrfa o gyfeillion a chydnabod a pherthnasau. Gadawodd dri brawd ac un chwaer i alaru. Y mae'r cysylltiadau'n niferus, yn eu plith ei nai, y Parchedig Ernest A. Davies, gweinidog yr Undodiaid ym Mexborough. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parchedigion J. D. Jones a Dl. John.

GORFFENNAF 12, yn 77 oed, bu farw JUDITH EVANS, Pleasant Hill, Cnapsych gynt, ar ôl cystudd blin a'i gwnaeth yn orweddog am tua phymtheg mlynedd. Collodd ei phriod, Owen Evans, yn ddisymwth tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf, er mawr siom iddi, oblegid bu'n hynod o ofalus amdani a thyner ei driniaeth ohoni. Ar ôl ei farw, aeth at ei chwaer a'i brawd i'r lle uchod, a buont hwythau yr un mor ofalus a thyner. Ar un olwg, da oedd iddi gael gollyngdod o'i phoenau, eithr siom a hiraeth sydd ym mynwes ei

chwaer a'i brawd o'i cholli, a chydymdeimlir â hwynt gan eu cydnabod. Claddwydd yng Nghapelygroes y dydd Iau dilynol, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion D. Evans a S. E. Bowen; chwaraewyd y "Dead March" gan Mrs. Jenkins, Blaenwaun-ganol.

Gorffennaf 20, 1948 yn Rhydowengoed, Plwyf Llandysul, GEORGE GLASTONBURY yn 66 oed. Gosodwyd y rhan farwol ohono yng nghladdfa Capel-y-Bryn y dydd Sadwrn dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, E. O. Jenkins a Lewis Williams. Hyd beth amser yn ôl yr oedd yn byw yn ardal Capel-y-Cwm lle yr oedd yn aelod. Ers rhai blynyddoedd ni chafodd iechyd da, ond daeth ei ddiwedd yn annisgwyliadwy. Yr oedd yn ddyn tawel dirodres, ac yn gyfaill dymunol iawn. Nid oedd gan neb air drwg am George. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ôl weddw a phedwar o blant. Dymunir pob cysur iddynt.

Gorffennaf 22 bu farw yn ddisyfyd iawn y brawd hawddgar, WILLIAM EVANS, Gwelfryn, Llandysul, yn 65 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent Pantydefaid Gorffennaf 26, ym mhresenoldeb cynulleidfa luosog o berthnasau a chyfeillion. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yn y Capel ac wrth y bedd gan ei weinidog. Talwyd teyrnged uchel iawn i gymeriad yr ymadawedig yn y bregeth fel dyn tawel, heddychlon, gweithgar ac anrhydeddus a mawr ei barch drwy'r gymdogaeth. Wrth yr organ oedd Mrs. Evans, Wilkes Head. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r weddw a'r mab a'r perthnasau oll.

Dydd Mawrth, Awst 10, bu farw BENJAMIN JONES, Troedrhiw, Llandysul yn 83 mlwydd oed. Yn ei angladd y Sadwrn canlynol gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A. a'r Parch. E. O. Jenkins. Ym Mhantydefaid pregethwyd gan ei weinidog, y Parch. Gwilym Evans ac ar lan y bedd darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. Jacob Dafis, B.A., a'r Parch. Lewis Williams. Daeth torf fawr ynghyd i'r capel ; chwaraewyd yr Organ gan Mrs. Evans, a siaradodd y pregethwr yn uchel iawn am yr ymadawedig frawd fel aelod a blaenor selog yng Nghapel ac Ysgol Sul y Graig, fel crefftwr gwych a chyfaill twymgalon. Talwyd teyrnged glir hefyd i'w gymeriad gwyn a'i bersonoliaeth hawddgar. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r weddw a'r meibion yn eu hiraeth.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYDDIANT.—Llongyfarchion i'r Parchedig E. R. Dennis, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, ar ei lwyddiant yn pasio arholiad cerddorol a rydd iddo'r llythrennau L.T.S.C. Dringed yn uwch eto yw ein dymuniad.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul